Fyddwch chi'n sefyll yr
arholiad yn yr haf?
(✓)

Fydd hi'n braf yfory?

(X)

Fyddan nhw'n credu
ei gelwyddau?
(✓)

Fyddwn ni'n gorfod
aros ar ôl y gwaith?
(X)

Fydda i'n cyrraedd
y rownd derfynol?
(✓)

Fyddi di'n aros yn y
cyngerdd tan y diwedd?
(X)

Wnei di ddweud y
gwirionedd y tro hwn?
(✓)

Wnewch chi ffafr
â mi?
(X)

**Na fydd.**
Fydd hi ddim yn braf yfory.

**Bydda.** Bydda i'n sefyll yr arholiad yn yr haf.
**Byddwn.** Byddwn ni'n sefyll yr arholiad yn yr haf.

**Na fyddwn.** Fyddwn ni ddim yn gorfod aros ar ôl y gwaith.
**Na fyddwch**. Fyddwch chi ddim yn gorfod aros ar ôl y gwaith.

**Byddan.** Mi fyddan nhw'n credu ei gelwyddau.

**Na fydda.** Fydda i ddim yn aros yn y cyngerdd tan y diwedd.

**Byddi**. Mi fyddi di'n cyrraedd y rownd derfynol.
**Byddwch.** Mi fyddwch chi'n cyrraedd y rownd derfynol.

**Na wnaf / Na 'na.** Na i ddim ffafr â ti/chi.

**Gwna(f) / 'Na i.** Mi wna i ddweud y gwirionedd y tro hwn.

Wneith hi ei gredu fo’r
tro hwn?
(✓)

Wnawn ni stopio
ar y ffordd?
(X)

Wnân nhw rywbeth
am y llifogydd
(✓)

Ga i ofyn ffafr?
(X)

Gymri di baned?
(✓)

Ffonith o’r swyddfa
yfory?
(X)

Eith Gareth i’r
gêm ‘wythnos nea?
(✓)

Welwn ni’r papur
cyn ateb y cwestiwn
(X)

**Na wnawn.** Wnawn ni ddim stopio ar y ffordd.
**Na wnewch**. Wnewch chi ddim stopio ar y ffordd.

**Gwneith.** Mi wneith hi ei gredu fo'r tro hwn.

**Na chei**. Chei di ddim gofyn ffafr.
**Na chewch.** Chewch chi ddim gofyn ffafr.

**Gwnân.** Mi wnân nhw rywbeth am y llifogydd.

**Na wneith**. Ffonith o mo'r swyddfa yfory.

**Gwna(f)/'Na i.**
Mi gymra i baned.

**Gwnawn.** Mi welwn ni'r papur cyn ateb y cwestiwn.
**Gwnewch**. Mi welwch chi'r papur cyn ateb y cwestiwn.

**Eith.** Mi eith Gareth i'r gêm 'wythnos nesa.

| | |
|---|---|
| **Dalwch chi am y bwyd y tro nesa? (✓)** | **Glywi di gan Sioned heno? (X)** |
| **Weithith o at yr arholiad? (✓)** | **Hedfanwch chi i'r Ariannin? (X)** |
| **Gymran nhw'r ffisig? (✓)** | **Gofiwn ni bopeth y tro nesa? (X)** |
| **Bleidleisiwn ni yn yr etholaid nesa? (✓)** | **Ddoi di yma eto? (X)** |

**Na wna.** Chlywa i ddim gan Sioned heno.

**Gwna(f)/’Na i.**
Mi dala i am y bwyd y tro nesa.

**Na wna.** Hedfana i ddim i’r Ariannin.
**Na wnawn.** Hedfanwn ni ddim i’r Ariannin.

**Gwneith.** Mi weithith o at yr arholiad.

**Na wnawn.** Chofiwn ni ddim popeth y tro nesa.
**Na wnewch**. Chofiwch chi ddim popeth y tro nesa.

**Na wnân.** Chymran nhw mo’r ffisig.

**Na wna(f).** Ddo i ddim yma eto.

**Gwnawn**. Mi bleidleisiwn ni yn yr etholiad nesa.
**Gwnewch**. Mi bleidleisiwch chi yn yr etholiad nesa.

Ei di i'r cyfarfod nos Lun?
(✓)

Gân nhw yfed
o flaen y dafarn?
(X)

Ga i ofyn cwestiwn?
(✓)

Ddewch chi ar y
daith i'r Affrig?
(X)

Ddarllenith o'r adroddiad
cyn siarad?
(✓)

Eith y plant i'r ysgol
yfory?
(X)

Ddôn nhw i'r dre
i siopa?
(✓)

Ddowch chi i berfformio
yn y cyngerdd?
(X)

**Na chân.** Chân nhw ddim yfed o flaen y dafarn.

**Af.** Mi a i i'r cyfarfod nos Lun.

**Na wnaf.** Ddo i ddim ar y daith i'r Affrig.
**Na wnawn.** Ddown ni ddim ar daith i'r Affrig.

**Cei.** Mi gei di ofyn cwestiwn.
**Cewch**. Mi gewch chi ofyn cwestiwn.

**Na wnân.** Eith y plant ddim i'r ysgol yfory.
**Na wnân**. Ân nhw ddim i'r ysgol yfory.

**Gwneith.** Mi ddarllenith o'r adroddiad cyn siarad.

**Na wnaf.** Ddo i ddim i berfformio yn y cyngerdd.
**Na wnawn.** Ddown ni ddim i berfformio yn y cyngerdd.

**Dôn.** Mi ddôn nhw i'r dre i siopa.